RHIFYN
ISSUE
25
26.04.20

Llais Llantrisant



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

08.05.20 – Dydd Gwener, Gŵyl y Banc (no home tasks)
Bank Holiday Friday (dim tasgau cartref)
25.05.20 – Gwyliau Hanner Tymor - Sulgwyn
Half Term Holiday – Whitsun
01.06.20 – Addysgu a dysgu o bell yn ail-ddechrau
Distance teaching and learning recommences

CER AMDANI HENRY
GO HENRY

Rwy'n siwr fod pawb, erbyn hyn, wedi bod yn dilyn hanes un o'n disgyblion wrth iddo redeg 2.6 milltir bob dydd dros ddeng niwrnod. Dyna i chi gamp i blentyn mor ifanc! Bwriad yr her yma i Henry yw casglu arian dros yr elusen 2 Wish Upon a Star.
Os golloch chi Henry ar y teledu yn ddiweddar, gwyliwch y cyfweliad fan hyn ac os hoffech gyfrannu at yr elusen, cliciwch yma. Da iawn, Henry!
I'm sure that, by now, everyone has been following the adventures of one of our pupils as he runs 2.6 miles each day over ten days. What a challenge for someone so young! The purpose of Henry's challenge is to raise money for the 2 Wish Upon a Star charity.
If you missed Henry on the television recently, click here and if you would like to contribute towards the charity, click here. Well done, Henry!



GOFAL PLANT BRYS
EMERGENCY CHILDCARE

Bydd darpariaeth Hwb Llanhari yn parhau am y dyfodol agos. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.
Llanhari Hub provision will continue for the near future. Click here for further information.

RHONDDA CYNON TAF

CADW MEWN CYSYLLTIAD
KEEPING IN CONTACT

Mae'r staff wedi bod wrth eu boddau yn clywed gan rai o'r disgyblion yn ystod yr wythnosau diwethaf. Braf iawn yw gweld cymaint o blant yn gweithio'n ddiwyd gartref – da iawn nhw! Os ydych chi'n defnyddio Twitter, cofiwch drydaru lluniau (gan gynnwys @YGGGLlantrisant yn y neges) er mwyn i ni eu 'hoffi' ac 'ail-drydaru'.
Diolch i chi am helpu'r plant gartref ac i'r staff am ddarparu ystod o weithgareddau i gadw'r plant yn brysur ac yn parhau i ddysgu. Diolch hefyd i'r plant - mae eu hymroddiad nhw yn ddi-fai.
Tasgau dyddiol yn wythnosol am yr wythnos gyfan sydd ar wefan yr ysgol ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen ac yn ddyddiol i'r plant hŷn yng Nghyfnod Allweddol 2.
Er i ni sôn o'r blaen, dyma ni'n eich atgoffa i gofio cysylltu â'r athrawon os bydd problemau gyda'r system. Gweler isod cyfeiriadau ebost y dosbarthiadau.
The staff have been in their element hearing from some of the pupils during the recent weeks. It has been great to see so many of them working hard at home – well done to them all! If you use Twitter, remember to tweet pictures (including @YGGGLlantrisant in the message) so we can 'like' and 're-tweet' them.
Once again, thank you for helping the children at home and thanks also to the staff for preparing a range of activities to keep the children busy and learning. A big thank you also to the children – their effort and dedication has been faultless.
Daily tasks are set at the beginning of the week on the school website for the children in the Foundation Phase and daily tasks are set for the older children in Key Stage 2 on a day by day basis.
Although we have mentioned before, just a reminder to contact the class teachers should you have any problems with the systems in place. Please see the class email addresses below.

Dosbarth 1	1d5@hwbcymru.net
Dosbarth 2	2d5@hwbcymru.net
Dosbarth 3	3d5@hwbcymru.net
Dosbarth 4	4d5@hwbcymru.net
Dosbarth 5	5d5@hwbcymru.net

Dosbarth 6	6d5@hwbcymru.net
Dosbarth 7	7d5@hwbcymru.net
Dosbarth 8	8d5@hwbcymru.net
Dosbarth 9	9d5@hwbcymru.net
Dosbarth 10	10d5@hwbcymru.net

HOLIADUR DYSGU O BELL / DYSGU GARTREF
DISTANCE LEARNING / LEARNING FROM HOME QUESTIONNAIRE

Yr wythnos hon, byddwch yn derbyn ebost gyda dolen ar gyfer holiadur er mwyn i'r staff gasglu barn ynghylch y system bresennol o addysgu a dysgu o bell. Gofynnir yn garedig i chi gadw llygaid am yr ebost yma os gwelwch yn dda.
This week, you will receive an email containing a link to a questionnaire so the staff are able to glean opinions regarding the current system of distance teaching and learning. You are kindly asked to keep an eye open for this email please.

SurveyMonkey



